JOHN ROBSON

Dwy wifren drydan

(gwneud penderfyniad / dewrder / gweledigaeth / meddwl am eraill)

Yn blygeiniol, fore Iau, 15 Mawrth, brasgamodd John Robson o'i gartref yn Ffordd Bruce Castle, Tottenham, i gyrraedd ei waith mewn pryd. Dreifar un o drenau'r rheilffordd tanddaearol yn Llundain oedd John ers blynyddoedd. Roedd wrth ei fodd yn dreifio'r trenau; a dweud y gwir dyna roedd John eisiau bod pan oedd yn blentyn bach – dreifar trên!

Pan ddaeth hi'n ddiwedd pnawn y diwrnod hwnnw roedd John wrth lyw y trên ar linell Piccadilly. Hon oedd yr awr ruthr pan oedd pawb ar eu ffordd adref ar ôl diwrnod blinedig yn y ddinas. Ar adegau fel hyn roedd pob trên yn orlawn – pobl yn eistedd a phobl yn sefyll a'r trenau'n chwyrlïo heibio. Meddyliai John, 'O ble ar wyneb y ddaear mae'r holl bobl wedi dod ac i ble maen nhw'n mynd.' Wrth iddo hel meddyliau fel hyn gwelodd y golau coch yn nhwnnel King's Cross.

Arafodd y trên a meddyliodd John, "Dwy awr eto ac mi fydda innau adref efo'r teulu." Yn sydyn, o'i flaen, gwelai olau llachar oedd bron yn ei ddallu. Trên arall yn dod yn syth i'w gyfarfod. Fferrodd John. Yn ei ddychryn gwaeddodd ond doedd neb yn ei glywed. Beth wnâi? Damwain erchyll! Gan fod ei drên wedi arafu llamodd i agor drws ei gaban a gafaelodd mewn dwy wifren drydan oedd yn rhedeg ar ochr arall y twnnel. Chwythodd y llwch oedd arnyn nhw a daeth â'r ddwy wifren at ei gilydd. Er ei fod yn teimlo math o sioc drydan drwy ei ddwylo a'i gorff llwyddodd i gael y ddwy wifren i gyffwrdd yn ei gilydd. Daliodd ei wynt.

Ond fel llew yn rhuo dôi'r trên arall yn nes ac yn nes a'i ddau lygad enfawr yn fflachio. Ond yn ara deg roedd y trên yn dechrau arafu a dyma'i holl gyfansoddiad yn symud yn sydyn o ochr i ochr.

Daliodd John ei wynt wrth i'r trên ddod yn nes ac yn nes. Ond roedd e'n arafu pob eiliad. Oedd e'n mynd i daro trên John? O fewn ychydig fodfeddi stopiodd y trên a'i olau llachar yn dal i ddallu John. Aeth yn ôl i'r caban gan daflu ei hun i'w sedd yn lluddedig. Dechreuodd grynu drwyddo. Roedd chwys yn rhedeg i lawr ei wyneb. Doedd neb o'r teithwyr yn y ddau drên yn gwybod beth oedd wedi digwydd.

Pan ddaeth John ato'i hun meddyliodd, "Dim ond ychydig eiliadau ac mi fyddai oddeutu mil o bobl wedi eu hanafu neu eu lladd. Buasai wedi bod yn ddamwain erchyll."

Cafodd John ei ganmol gan Drafnidiaeth Llundain. Yn ôl un o'r penaethiaid yr hyn roedd John wedi ei wneud oedd cymryd y ddwy wifren i ddiffodd cerrynt o'r trac rheilffordd a chynnau'r goleuni argyfwng yn y twnnel. Roedd John, meddai'r pennaeth, yn arwr ac yn wir roedd y bobl oedd ar y ddau drên yn barod i'w ganmol i'r cymylau. "Diolch, John."

Adnod: "Cariwch feichiau eich gilydd ..." Galatiaid 6:2

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am bobl gyffredin sy'n barod i fentro eu bywydau i helpu pobl eraill. Amen.

Trafod:

- Hanes gawn ni yma am ddyn cyffredin yn gwneud rhywbeth anghyffredin i achub bywydau. Chwiliwch am straeon tebyg i hon mewn papurau newydd ac ar y newyddion.
- Beth fuasech *chi* wedi'i wneud o dan yr amgylchiadau?